

ADRODDIAD CYNGHORYDD
Hydref 2022

COUNCILLOR'S REPORT
October 2022

Llinos Davies



llinosmdavies@sirgar.gov.uk
llinosmdavies@carmarthenshire.gov.uk



Diweddariad

▪ **Digwyddiad Rhwydweithio**

Trefnwyd digwyddiad rhwydweithio llwyddiannus gan CSG ar gyfer busnesau Cross Hands ar 7 Hydref. Os ydych chi'n berchennog busnes yn Cross Hands ac os hoffech fynychu cyfarfodydd Cynllun 10 Tref yn y dyfodol, cysylltwch â Natasha Mainwaring:
NPMainwaring@carmarthenshire.gov.uk

Ward Llannon

➤ Economi Cylchol

Fel rhan o'r Cynllun 10 Tref, mae CSG yn ystyried gweithgareddau Economi Cylchol ar gyfer Cross Hands. Trefnir digwyddiad ymgysylltu cymunedol yng Nghlwb Gweithwyr Cross Hands ar ddydd Iau, 27 Hydref am 16:00. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mari Arthur:
mari@afallen.cymru

➤ Llwybr seiclo newydd

Gobeithir creu llwybr seiclo newydd ym Mharc Busnes Cross Hands. Bydd ymchwiliad ac astudiaeth dichonoldeb yn cael eu cynnal cyn hir.

- Rhoddwyd gwybod i CSG am sawl mater sydd angen sylw. Mae'r Cyngor eisoes wedi mynd i'r afael â nifer ohonynt e.e tynnu arwyddion sy wedi dyddio, ailosod paen mewn safle bws a thynnu meinciau oedd wedi torri o Barc Coetir Mynydd Mawr.
- Mae ymholiadau wrth drigolion wedi eu hateb.

Gwybodaeth Gyffredinol

• Hawliwch bopeth

Mae gan CSG dîm o ymgynghorwyr sy'n helpu trigolion wneud cais am y cymorth, y gwasanaethau a'r arian y mae ganddynt hawl iddynt. Am ragor o wybodaeth cliciwch ar y ddolen yma [Hawliwch bopeth \(llyw.cymru\)](#)

• CSG – Cyllideb 2023/24

Cliciwch ar y ddolen isod i ddarllen am y sefyllfa ariannol anodd iawn sy'n wynebu CSG.

[Posiblwydd y bydd angen i Gyngor Sir Caerfyrddin ddod o hyd i arbedion o £22m \(llyw.cymru\)](#)

• Gwobrau Chwaraeon Actif Sir Gaerfyrddin 2022

Enwebwch eich arwr chwaraeon lleol yma...

[Enwebiadau ar agor ar gyfer Gwobrau Chwaraeon Actif Sir Gaerfyrddin 2022! - Actif](#)

Y dyddiad cau ar gyfer anfon enwebiadau yw dydd Gwener 4^{ydd} Tachwedd.

• Rhoi Gwybod

Defnyddiwch y ddolen isod i roi gwybod am finiau sydd heb eu casglu, goleuadau stryd diffygiol, tipio anghyfreithlon a llawer mwy. [Rhoi gwybod \(llyw.cymru\)](#)

- Materion Plismona

- Mae'n bosib riportio troseddau, riportio digwyddiad traffig ar y ffyrdd, darllen y newyddion diweddaraf a mwy ar wefan Heddlu Dyfed Powys. Dolen isod.

[Tudalen gartref | Heddlu Dyfed-Powys](#)

- I gael y newyddion, y bwletinau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan eich tîm plismona lleol ymunwch â Llais - [Llais Community Messaging](#)

- Hyfforddiant ar gyfer grwpiau gwirfoddol

Neges wrth WaREN at eich sylw:

*'Mae WaREN eisiau hwyluso Grwpiau Gweithredu Lleol neu grwpiau gwirfoddolwyr ledled Cymru i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol. Ar hyn o bryd rydym yn trefnu hyfforddiant chwistrellu a strimio. **Os ydych chi'n Grŵp Gweithredu Lleol neu grŵp o wirfoddolwr yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol, neu yn dymuno dechrau, cwblhewch y ffurflen** hwn erbyn Hydref 23ain os gwelwch yn dda. Rydym eisiau gwybod pa hyfforddiant fyddai o fudd i chi.'*

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Dr Jess Minett, Swyddog Prosiect WaREN (De Cymru):
Jessica.Minett@northwaleswildlifetrust.org.uk

- Ymgyrch 'Iddyn Nhw' Llywodraeth Cymru

Gadawyd y gwair ar ymylon ffyrdd Sir Gâr i dyfu eleni. Mae torri gwair yn llai aml yn caniatáu i laswellt a blodau gwyllt dyfu sy'n creu gwell cynefin i infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid. Nod ymgyrch 'Iddyn Nhw' yw codi ymwybyddiaeth o hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn y ffeithlun isod.

- Dyddiadau Cymorthfeydd:


1) 20 Hydref 2022	17:00-18:00	Neuadd y Tymbl
2) 25 Tachwedd 2022	13:00-14:00	Neuadd y Tymbl
3) 16 Rhagfyr 2022	11:00-12:00	Y Cwtsh, Parc Y Mynydd Mawr

- Coffi, Cacen a Jazz

Trefnir prynhawn 'Coffi, Cacen a Jazz' ar ddydd Sul, 6 Tachwedd er budd Alzheimer's Society. Mae tocynnau yn £5 yr un (www.ticketsourse.co.uk). Croeso i bawb.

- Cyfryngau Cymdeithasol

 @Cyng/CllrLlinosDavies

 @llosmdavies

Update

▪ **Networking Event**

A successful networking event was organised by CCC for Cross Hands businesses on 7 October. If you are a Cross Hands business owner and would like to attend future 10 Towns meetings, please contact Natasha Mainwaring (NPMainwaring@carmarthenshire.gov.uk).

Llannon Ward

➤ Circular Economy

As part of the 10 Towns Project, CCC is considering Circular Economy activities for Cross Hands. A community engagement event will be held at Cross Hands Workingmen's Club on Thursday, 27 October at 16:00. For further information please contact Mari Arthur: mari@afallen.cymru

➤ New cycle path

It is hoped that a new cycle path will be created in Cross Hands Business Park. An investigation and feasibility study will be undertaken soon.

- Several matters have been reported to CCC for attention, many of which have been addressed including removing outdated road signs, replacing a missing pane in a bus stop and removing broken benches from Mynydd Mawr Woodland Park.
- Questions and concerns raised by residents have been addressed.

General Information

• Claim What's Yours

CCC has a dedicated team who assist residents to apply for the support, services and money to which they are entitled. For further information click on the link below

[Claim what's yours \(gov.wales\)](#)

• CCC – 2023/24 Budget

Click on link the below to read more about the extremely difficult financial situation facing CCC

[Carmarthenshire County Council may need to find savings of £22m \(gov.wales\)](#)

• Actif Carmarthenshire Sports Awards 2022

Nominate your local sporting hero here...

[Nominations are Open for the Actif Carmarthenshire Sport Awards 2022! - Actif](#)

The closing date for nominations is Friday 4th November.

• Report

Click on the link below to report missed bin collections, faulty street lights, fly tipping and more. [Report \(gov.wales\)](#)

- Policing Matters

- It's possible to report crimes, report a road traffic incident, read the latest news and more on the Dyfed Powys Police website. [Home | Dyfed-Powys Police](#)
- To receive the latest news, updates, and information from your local policing team sign up to Llais - [Llais Community Messaging](#)

- Training for volunteer groups

Message from WaREN:

*'WaREN want to facilitate Local Action Groups (LAGs) or volunteer groups across Wales in tackling invasive species. We are currently arranging spray and strimmer training. **If you are a LAG or volunteer group in Wales tackling invasive species, or want to do so, please complete this [form](#)** [by October 23rd]. We want to know what training would benefit you.'*

For more information, contact Dr Jess Minett, WaREN Project Officer (South Wales):

Jessica.Minett@northwaleswildlifetrust.org.uk

- Welsh Government 'It's for Them' campaign

The grass verges around Carmarthenshire were left to grow this year. Reducing mowing allows grasses and wildflowers to grow which creates a better habitat for invertebrates, birds, small mammals, amphibians and reptiles. The 'It's for Them' campaign aims to raise awareness of this. More information in infographic below.

- Councillor's Surgery dates:


1) 20 October 2022	17:00-18:00	Tumble Hall
2) 25 November 2022	13:00-14:00	Tumble Hall
3) 16 December 2022	11:00-12:00	Y Cwtsh, Parc Y Mynydd Mawr

- Coffee, Cake and Jazz

A 'Coffee, Cake & Jazz' afternoon is being organized in aid of Alzheimer's Society on Sunday, 6th November. Tickets are £5 each (www.ticketsource.co.uk). All welcome.

- Social Media

 @Cyng/CllrLlinosDavies

 @llinosmdavies

Iddyn nhw - Yn newid y drefn torri glaswellt er lles natur

Rydym mewn argyfwng natur. Mae 1 o bob 6 rhywogaeth sydd wedi'u hasesu yng Nghymru mewn perygl o ddiplannu. Mae angen i ni weithredu nawr i'w hachub.

Gallwn wneud ymylon ffyrdd, parciau a mannau gwyrdd eraill yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt. Efallai y bydd glaswellt wedi'i dorri'n ofalus yn edrych yn daclus ond nid oes fawr o fudd i fywyd gwyllt. Mae gadael i laswellt dyfu a chael mwy o ardaloedd tebyg i ddolydd gyda blodau gwyllt yn helpu bywyd gwyllt.

Planhigion

Mae blodau gwyllt, gan gynnwys blodau gwyllt prin, yn tyfu ac yn cynhyrchu hadau, gan ganiatáu iddynt gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Infertebratau

Mae blodau gwyllt a glaswellt yn darparu bwyd i bryfed, gan gynnwys cacwn, pryfed hofran, chwilod, glöynnod byw, gwyfynod, sioncynod y gwair.

Mae glaswellt hir yn rhoi cysgod iddynt ddodwy eu hwyau a chwblhau eu cylchoedd bywyd. Gall dolydd naturiol nodweddiadol gefnogi mwy na **1,400 o rywogaethau** o infertebratau.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mamaliaid

Mae ystlumod, llygod maes, llygod y gwair, llygon a draenogod yn bwyta'r planhigion a'r infertebratau a geir mewn dolydd.

Amffibiaid

Mae brogaod a llyffantod yn bwydo ar infertebratau.

Ymlusgiaid

Hefyd, mae nadroedd defaid a madfallod yn bwyta infertebratau, ac mae nadroedd y gwair yn bwyta llyffantod.

Adar

Mae adar bach fel llinosiaid yn bwyta hadau o flodau gwyllt. Mae adar eraill fel gwenoliaid yn bwyta pryfed. Mae cudyll coch, bwncath a thylluanod gwynion yn bwydo ar famaliaid bach.

Mae newid y ffordd rydym yn torri glaswellt yn ymwneud ag arbed bywyd gwyllt, nid lleihau costau.

It's for Them - Changing mowing to save wildlife

We are in a nature emergency. 1 in 6 species assessed in Wales are at risk of extinction. We need to act now to save them.

We can make road verges, parks and other green spaces more wildlife friendly. Regularly cut, closely mown grass may look tidy but it has little benefit for wildlife. Letting grass grow and having more meadow-like areas with wildflowers helps wildlife.

Plants

Wildflowers, including rare wildflowers, grow and produce seeds, allowing them to increase year-on-year.

Invertebrates

Wildflowers and grasses provide food for insects, including beetles, moths, butterflies, grasshoppers, bumblebees and hoverflies.

Long grass gives shelter for them to lay their eggs and complete their life cycles. A typical natural meadow can support more than **1,400 species** of invertebrates.



Mammals

Bats, field mice, voles, shrews and hedgehogs eat the plants and invertebrates found in meadows.

Amphibians

Frogs and toads feed on invertebrates.

Reptiles

Slow-worms and lizards also eat invertebrates, and grass snakes eat frogs.

Birds

Small birds like finches eat seeds from wildflowers. Other birds such as swallows and swifts eat insects. Kestrels, buzzards and barn owls feed on small mammals.

Changing how we cut grass is about saving wildlife, not reducing costs.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COFFI, CACEN A JAZZ
COFFEE, CAKE AND JAZZ

Croeso i bawb / All welcome



with a live band
gyda band byw



www.ticketsource.co.uk
£5
person

Croeso yn arbennig i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr

A special welcome to people living with dementia and their carers



Neuadd y Tymbl
Dydd Sul, 6 Tachwedd
14:00 - 16:00
Sunday, 6 November
Tumble Hall

arian a godir / all monies raised

